

Addasiadau i gymwysterau
Lefel 1 a 2 galwedigaethol a
chymwysterau cyffredinol
eraill CBAC i'w hasesu yn
haf 2021

Llyfryn Gwybodaeth Bynciau

CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	O dan Cyfathrebu Busnes Byd-eang Uned 3, newidiwyd y geiriau i ddarllen 'ni fydd ... yn ofynnol ar gyfer haf 2021	11

Addasiadau i gymwysterau galwedigaethol Lefel 1 a 2 a chymwysterau cyffredinol eraill CBAC i'w hasesu yn haf 2020/21

Amharwyd ar yr amser addysgu, dysgu ac asesu yn ystod gwanwyn a haf 2020 oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19). Parhaodd yr amharu yn ystod tymor yr hydref hefyd oherwydd cyfnodau clo lleol, unigolion a dosbarthiadau cyfan mewn cwarantîn ac amgylchiadau eraill wnaeth olygu nad oedd modd i ddysgwyr fynd i'r canolfannau fel arfer.

Amrywiodd effaith yr amhariad hwn ar draws canolfannau, gan ddibynnu ar ba bynnag gymwysterau a gynigir ganddynt a sut maen nhw'n mynd ati i addysgu a dysgu. Effeithiwyd ar rai canolfannau a phynciau yn fwy nag eraill.

Bydd yr amser addysgu'n fwy cywasgedig mewn llawer o gyrsiau a bydd angen cynyddu'r amser addysgu sydd ar gael. Lle mae amhariad wedi bod ar amser addysgu a dysgu dysgwyr ers mis Mawrth, efallai y bydd yn rhaid i ganolfannau gymryd camau i gynorthwyo dysgwyr i 'ddal i fyny' ar ôl treulio amser i ffwrdd o'u canolfan. Gall amharu lleol a gofynion iechedd y cyhoedd, megis defnyddio mesurau ymbellhau cymdeithasol, effeithio ar sut y mae asesuadau'n digwydd.

Mae angen addasu rhai asesuadau mewn rhai pynciau i wneud iawn am yr amharu ar addysgu, dysgu ac asesu a/neu i ganiatáu am effeithiau unrhyw ofynion ymbellhau cymdeithasol neu ganllawiau eraill yn ymwneud ag iechedd y cyhoedd. Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried pa drefniadau lliniaru y gallai fod eu hangen yn haf 2021. Yn rhan o hyn ymgynghorwyd â'n canolfannau ynghylch amrediad o gynigion lliniaru arfaethedig.

Yn y ddogfen hon nodir addasiadau i asesuadau ein cyfres o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol eraill ar Lefelau 1 a 2. Mae'n disodli'r ddogfen 'Addasiadau arfaethedig i gymwysterau galwedigaethol Lefel 1 a 2 a chymwysterau cyffredinol eraill CBAC' a gyhoeddwyd ar Wefan Ddiogel CBAC i'w gweld gan ganolfannau ym mis Hydref 2020.

Datblygwyd yr addasiadau hyn i gyfateb i'r egwyddorion a gyhoeddwyd yn y ddogfen Extended Extraordinary regulatory framework: Vocational and Technical Qualifications, COVID-19 Conditions and Requirements (ExtVTQCov Framework) a gyhoeddwyd gan [Ofqual](#) a [Cymwysterau Cymru](#).

Bu angen i ni hefyd, yn achos y cymwysterau hynny sydd wedi'u cynnwys ar dablau perfformiad ysgolion yn Lloegr, sicrhau bod yr addasiadau'n bodloni'r gofynion ychwanegol a nodwyd gan yr Adran Addysg (AA). Oherwydd hynny, **nid** ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r nodweddion canlynol o'n cymwysterau galwedigaethol Lefel 1/2 a gydnabyddir fel Dyfarniadau Technegol ar gyfer y tablau perfformiad CA4 yn Lloegr gan gynnwys:

- cydbwysu'r asesu mewnol ac allanol
- gofynion asesu synoptig
- yr oriau dysgu dan arweiniad sydd wedi'u neilltuo i'r cymhwyster.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy gymhwyster Dyfarniad Galwedigaethol yn Haf 2020

Bydd ymgeiswyr a gofrestrwyd am asesiad uned yn Haf 2020, y cyflwynodd y ganolfan radd asesu canolfannau a safle ar y drefn restrol ar eu cyfer wedi derbyn gradd wedi'i chyfrifo. Bydd y graddau wedi'u chyfrifo hyn yn cyfrannu tuag at ddyfarniad cyffredinol y cymhwyster yn Haf 2021. Felly, os oes gan ymgeiswyr ganlyniad uned o Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesuadau hyn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Bydd angen i unrhyw ymgeiswyr wnaeth ddim derbyn canlyniad uned wedi'i gyfrifo ar gyfer cyfres Haf 2020 gwblhau'r asesiad yn 2020/21.

Mynegai'r pynciau

Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol:

- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig (manyleb 2018)
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig (manyleb 2014)
- Dyfarniad Galwedigaethol yn Y Creadigol a'r Cyfryngau
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Peirianeg
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Gweithredu Digwyddiadau
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Cyfathrebu Busnes Byd-eang
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwyo
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr yn unig)
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Cynllunio a Chynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Busnes Adwerthu
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi
- Dyfarniad Galwedigaethol mewn Twristiaeth

Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol:

- Lefel 1 Tystysgrifau mewn Lladin
- Lefel 2 Tystysgrif mewn Mathemateg Ychwanegol

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig (2018)

Manyleb sydd ar gael i ganolfannau yn Lloegr yn unig yw hon.

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod nifer y sgiliau i'w asesu'n llai. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, a'r cymhwysedd ymarferol a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy. Hefyd, addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu hymgymryd yn 2020/21.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Diogelwch a Diogeledd ym maes Adeiladu – Arholiad allanol (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Sgiliau Adeiladu Ymarferol – Asesiad dan reolaeth wedi'i farcio gan y ganolfan (50%)

Bydd nifer y sgiliau y mae'n ofynnol i ymgeiswyr eu dangos yn cael ei leihau o dri i ddau. Ni fydd ymgeiswyr ychwaith yn cael eu hasesu ar eu dehongliad o ffynonellau gwybodaeth technegol. (MPA1.1)

Mae lwfans amser yr asesiad hwn i fynd i lawr o 14 awr i 10 awr.

Uned 3: Cynllunio Projectau Adeiladu – Arholiad allanol (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Golygodd cau'r ysgolion a'r colegau yn y Gwanwyn 2020 na fyddai gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster ar y pryd fynediad at fannau gweithio arbenigol yn y canolfannau i ddatblygu a mireinio eu sgiliau ymarferol ac mae'n annhebygol iawn y gellid bod wedi hwyluso hyn trwy ddysgu o bell. Mae anawsterau o hyd mewn rhai canolfannau o ran amserlennu sesiynau ymarferol a chydymffurfio ar yr un pryd â mesurau ymbellhau cymdeithasol a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Dylai'r Addasiadau i Uned 2 gynorthwyo'r canolfannau i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu hwn a gollwyd a chydabod ar yr un pryd y bydd angen i ysgolion a cholegau yn awr roi trefniadau ar waith sy'n briodol i'w hamgylchiadau penodol nhw fel bod modd sicrhau parhad yr addysgu a dysgu.

Atgoffir canolfannau y gallent amserlennu'r asesiad dan reolaeth dros gymaint o sesiynau ac wythnosau â'r hyn sydd ei angen. Dylai hynny felly helpu o ran eu cefnogi i gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol tebyg i'r hyn a gyhoeddir gan CLEAPPS.

Asesir pob Deiliant Dysgu o hyd yn Haf 2021 ac ni wnaed unrhyw newidiadau i'r asesiad allanol.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig (2014)

Manyleb sydd ar gael i ganolfannau yng Nghymru yn unig yw hon.

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod nifer y sgiliau i'w asesu'n llai. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, a'r cymhwysedd ymarferol a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy. Hefyd, addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu hymgymryd yn 2020/21.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Diogelwch a Diogeledd ym maes Adeiladu – Arholiad allanol (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Sgiliau Adeiladu Ymarferol – Asesiad dan reolaeth wedi'i farcio gan y ganolfan (50%)

Bydd nifer y sgiliau y mae'n ofynnol i ymgeiswyr eu dangos yn cael ei leihau o dri i ddau. Ni fydd ymgeiswyr ychwaith yn cael eu hasesu ar eu dehongliad o ffynonellau gwybodaeth technegol. (MPA1.1)

Mae lwfans amser yr asesiad hwn i fynd i lawr o 14 awr i 9.5 awr.

Uned 3: Cynllunio Projectau Adeiladu – Asesiad dan reolaeth wedi'i farcio gan y ganolfan (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Golygodd cau'r ysgolion a'r colegau yn y Gwanwyn 2020 na fyddai ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster ar y pryd wedi cael mynediad at fannau gweithio arbenigol yn y canolfannau i ddatblygu a mireinio eu sgiliau ymarferol ac mae'n annhebygol iawn y gellid bod wedi hwyluso hyn trwy ddysgu o bell. Mae anawsterau o hyd mewn rhai canolfannau o ran amserlennu sesiynau ymarferol a chydymffurfio ar yr un pryd â mesurau ymbellhau cymdeithasol a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Dylai'r Addasiadau i Uned 2 gynorthwyo'r canolfannau i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu hwn a gollwyd a chydabod ar yr un pryd y bydd angen i ysgolion a cholegau yn awr roi trefniadau ar waith sy'n briodol i'w hamgylchiadau penodol nhw fel bod modd sicrhau parhad yr addysgu a dysgu.

Atgoffir canolfannau y gallent amserlennu'r asesiadau dan reolaeth dros gymaint o sesiynau ac wythnosau â'r hyn sydd ei angen. Dylai hynny felly helpu o ran eu cefnogi i gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol tebyg i'r hyn a gyhoeddir gan CLEAPPS.

Asesir pob Deiliant Dysgu o hyd yn Haf 2021 ac ni wnaed unrhyw newidiadau i'r asesiad allanol.

Lefel 1/2 Dyfarniad a Thystysgrif Galwedigaethol yn y Creadigol a'r Cyfryngau

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, a'r cymhwysedd ymarferol a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy. Hefyd, addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu hymgymryd yn 2020/21.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1 – Creu cynnig mewn ymateb i friff – Arholiad allanol (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon. Ond, rhyddhawyd y briff Uned 1 yn electronig (i'w lwytho i lawr o'r wefan ddiogel) ym mis Hydref yn hytrach na mis Rhagfyr.

Uned 2 – Creu Deiliant mewn Ymateb i Friff – Asesiad dan Reolaeth (25%)

Y canolfannau eu hunain sy'n gosod cyd-destun y dasg a gallant ei addasu i'w asesu yn Haf 2021 drwy osod un sy'n llai/byrrach (o ran hyd) neu gynnyrch symlach na'r arfer. Er enghraifft, mewn Cerddoriaeth, gallai hyn fod yn gyfansoddiad neu'n berfformiad byrrach. Yn yr opsiynau Dylunio a Thechnoleg (2D/3D/tecstilau ac ati), gallai hyn fod yn eitem lai neu symlach. Ni fydd y meini prawf asesu yn newid. Ni chosbir ymgeiswyr am lunio cynnyrch byrrach/symlach na charfanau blaenorol.

Uned 3 – Unedau datblygu sgiliau – Asesiad dan reolaeth (50%)

Y canolfannau eu hunain sy'n gosod cyd-destun y dasg a gallant osod tasg lai er mwyn ei addasu i'w asesu yn Haf 2021.

Rhyddheir canllawiau i ganolfannau ar yr hyn sy'n dderbyniol fel tystiolaeth i'w chynnwys yn y portffolio ar gyfer Deiliant Dysgu 3, fel:

- defnyddio fersiynau o'r un darn o waith i enghreifftio meithrin sgiliau
- dewisiadau yn lle gwaith ysgrifenedig fel recordiadau clyweledol o drafodaethau neu gyfweiliadau
- defnyddio trafodaeth broffesiynol, neu gyfrif ysgrifenedig os yw rheolau ymbellhau cymdeithasol yn atal rhai agweddau ar ddarn o waith rhag cael eu cwblhau, i esbonio sut y byddai hyn fel arfer wedi cael ei gyflawni.

Gwybodaeth ychwanegol

Golygodd cau'r ysgolion a'r colegau yn y Gwanwyn 2020 na chafodd ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster ar y pryd fynediad at fannau gweithio arbenigol yn y canolfannau i ddatblygu a mireinio eu sgiliau ymarferol ac mae'n annhebygol iawn y gellid bod wedi hwyluso hyn trwy ddysgu o bell. Mae anawsterau o hyd mewn rhai canolfannau o ran amserlennu sesiynau ymarferol a chydymffurfio ar yr un pryd â mesurau ymbellhau cymdeithasol a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Dylai'r Addasiadau i'r asesiadau yn 2021 gynorthwyo canolfannau a chydabod ar yr un pryd y bydd ysgolion a cholegau'n rhoi trefniadau ar waith sy'n briodol i'w hamgylchiadau penodol eu hunain er mwyn sicrhau bod modd parhau â'r addysgu a'r dysgu. Ni allwn wneud unrhyw Addasiadau pellach i'r asesu heb gyfaddawdu uniondeb a dibynadwyedd yr asesiad.

Bydd rhyddhau briff yr Uned yn gynharach yn golygu bod mwy o hyblygrwydd ar gael i ganolfannau i amserlennu ymchwil yr asesiad dan reolaeth. Gallai canolfannau ddewis rhannu'r amser er mwyn cynnal rhywfaint o'r gweithgarwch cychwynnol yn ystod tymor yr hydref ar adeg y gallai unrhyw weithgareddau ymarferol fod yn gyfyngedig oherwydd ymbellhau cymdeithasol a threulio rhai oriau arno ychydig cyn cynnal yr arholiad ym mis Mawrth.

Rydym yn ymwybodol bod llawer o ganolfannau'n defnyddio briff Uned 1 fel ysgogiad ar gyfer Uned 2, felly dylai rhyddhau hwn yn gynnar helpu canolfannau hefyd i gynllunio ar gyfer cyflwyno.

Atgoffir canolfannau y gallant amserlennu asesiadau dan reolaeth dros gymaint o sesiynau ac wythnosau â'r hyn sydd ei angen.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, a'r cymhwysedd ymarferol a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy. Addaswyd hefyd pa bryd y bydd asesiadau ar gael yn 2020/21.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Potensial Cynllunio Projectau Adeiladu – Asesiad Dan Reolaeth Wedi'i Farcio'n Allanol 25%

Er na newidir asesiad yr uned hon, bydd yr asesiad ar gael i'w lawrlwytho gan ganolfannau o'r wefan ddiogel o 1 Ebrill 2021 fel y bydd mwy o hyblygrwydd i amserlennu'r asesiad ar gael i ganolfannau. Mae'r dyddiad cyflwyno yn aros yr un fath.

Uned 2: Tynnu lluniau o gynlluniau adeiladu – Asesiad dan Reolaeth 50%

Bydd yr asesiad ar gyfer 2021 yn cael ei symleiddio fel nad oes angen i ymgeiswyr nodi gofynion gwybodaeth ar gyfer dyluniadau adeiladu (MPA1.1), lluniadu golygon (MPA2.2) na defnyddio iaith ddrafftio (MPA2.3)

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) ar gyfer yr holl dasgau. Dylid rhoi arweiniad i ymgeiswyr o hyd i dreulio 12 awr ar yr asesiad hwn.

Uned 3: Strwythurau a Deunyddiau Adeiladu – Asesiad dan Reolaeth 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwnaed addasiadau i gynorthwyo i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd.

Gan fod natur seiliedig ar sgiliau ac un canolbwynt yn perthyn i asesiad yr Uned 2, *Tynnu lluniau o gynlluniau adeiladu*, mae'n anodd gwneud addasiadau sylweddol i'r asesiad yn 2021. Cafodd addasiadau eu gwneud er mwyn lleihau faint o gynnwys i'w asesu. Tynnwyd y gofyniad i ymgeiswyr nodi gofynion gwybodaeth ar gyfer dylunio adeiladau (MPA 1.1), lluniadu golygon (MPA 2.2) a defnyddio iaith ddrafftio (MPA 2.3). Bydd gweddlluniau'n dal i gael eu cynnwys ym modelau 3-D wedi'u cynhyrchu ar gyfrifiadur yr ymgeisydd.

Er y bydd angen i athrawon addysgu'r cynnwys hwn i'r ymgeiswyr o hyd, bydd ei dynnu o'r asesiad yn 2021 yn galluogi athrawon i addasu'r ffordd maen nhw'n addysgu a dysgu'r testunau hyn.

Bydd briff yr asesiad dan reolaeth Uned 3 ar gael i ganolfannau o 1 Ebrill 2021. Er mwyn i'r canolfannau gael cyfnod mwy o amser i amserlennu a chwblhau'r asesiad, 28 Mai 2021 fydd y terfyn amser cyflwyno o hyd.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Peirianeg

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, a'r cymhwysedd ymarferol a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy. Hefyd, addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu hymgymryd yn 2020/21.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Dylunio Peirianyddol – Asesiad dan reolaeth wedi'i farcio gan y ganolfan 25%

Bydd y cynnwys i'w asesu yn llai yn Haf 2021. Ni fydd gofyn i ymgeiswyr adnabod nodweddion o gynhyrchion peirianyddol sy'n bodloni gofynion y briff (MPA1.2).

Uned 2: Cynhyrchu Cynhyrchion Peirianyddol – Asesiad dan reolaeth wedi'i farcio gan y ganolfan 50%

Bydd y cynnwys i'w asesu yn llai ar gyfer Haf 2021 gyda nifer y prosesau gofynnol yn mynd i lawr o naw i chwech. I ganiatáu am y newidiadau hyn, bydd angen i ganolfannau addasu lluniadau gweithio i gynorthwyo ymgeiswyr.

Yn ogystal, ni fydd gofyn i ymgeiswyr werthuso ansawdd cynhyrchion peirianyddol (MPA4.2)

Uned 3: Datrys Problemau Peirianyddol – Arholiad Allanol 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Golygodd cau'r ysgolion a'r colegau yn y Gwanwyn 2020 na chafodd ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster yn haf 2020 fynediad at fannau gweithio arbenigol yn y canolfannau i ddatblygu a mireinio eu sgiliau ymarferol ac mae'n annhebygol iawn y gellid bod wedi hwyluso hyn trwy ddysgu o bell. Mae anawsterau o hyd mewn rhai canolfannau o ran amserlennu sesiynau ymarferol a chydymffurfio ar yr un pryd â mesurau ymbellhau cymdeithasol a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Drwy leihau'r cynnwys Uned 2 i'w asesu yn Haf 2021 bydd mwy o amser i gyflawni'r amser dylunio a gweithgynhyrchu gofynnol ac i baratoi ar gyfer arholiad Uned 3.

Atgoffir canolfannau y gallent amserlennu'r asesiadau dan reolaeth dros gymaint o sesiynau ac wythnosau â'r hyn sydd ei angen. Dylai hynny felly helpu o ran eu cefnogi i gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol tebyg i'r hyn a gyhoeddir gan CLEAPPS.

Asesir pob Deiliant Dysgu o hyd yn Haf 2021 ac ni wnaed unrhyw newidiadau i'r asesiad allanol.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Gweithredu Digwyddiadau

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Addaswyd yr asesu ar gyfer Haf 2021 fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, neu'r cymhwysedd ymarferol a nodir yn y fanyleb yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Y Diwydiant Digwyddiadau – Arholiad Ysgrifenedig 40%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2: Gweithredu Digwyddiadau – Asesiad dan reolaeth wedi'i farcio gan y ganolfan 30%

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau **naill ai Tasg** 1 yn yr uned hon **neu** Dasg 3 yn uned 3.

Os nad yw ymgeisydd yn gallu cyfrannu at ddigwyddiadau oherwydd cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol a/neu ddiffyg cyfle er mwyn casglu digon o dystiolaeth i'w hasesu, gall canolfannau ddefnyddio trafodaeth strwythuredig fel ffordd o ddarparu tystiolaeth ychwanegol ar gyfer cwblhau Tasg 2. Dylid nodi hyn ar y Cofnod Arsylwi y bydd yr athro/athrawes yn ei lunio.

Uned 3: Cynllunio Digwyddiadau – Asesiad dan reolaeth wedi'i farcio gan y ganolfan 30%

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau **naill ai** Tasg 1 yn Uned 2 **neu** Dasg 3 yn yr uned hon.

Nid oes gofyn i ymgeiswyr gynllunio, cynnal a gwerthuso o leiaf tri digwyddiad fel rhan o'r rhaglen ddysgu cyn iddynt ymgymryd â'r asesiad crynol. Rhaid i athrawon sicrhau bod gan yr ymgeiswyr gyfleoedd i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan yr uned; gellid cyflawni hyn drwy gynyddu'r defnydd o astudiaethau achos a/neu adnoddau fideo.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd cau'r ysgolion a cholegau yn y Gwanwyn 2020 wedi cyfyngu ar y cyfleoedd a gafodd ymgeiswyr i gyflawni gwaith ymarferol a gwaith grŵp ac mae'n annhebygol iawn y gellid bod wedi hwyluso hyn trwy ddysgu o bell.

Asesir elfennau ar gynllunio digwyddiadau yn Uned 2, Tasg 1 ac Uned 3, Tasg 3, ac rydyn ni felly wedi caniatáu i ymgeiswyr gwblhau un o'r tasgau hyn er mwyn symleiddio'r asesiad ar gyfer haf 2021. Tasg grŵp yw'r dasg gynllunio yn Uned 2 a gall canolfannau ei chael yn anodd ei hwyluso. Felly, efallai y bydd y dasg gynllunio yn Uned 3 yn fwy hylaw i ganolfannau yn 2021. Mae dewis ar gael fodd bynnag gan y gallai rhai o'r canolfannau fod wedi cwblhau'r dasg gynllunio ar gyfer Uned 2 cyn y cyfnod clo. **Os nad** yw ymgeiswyr yn cwblhau Uned 2, Tasg 1, bydd angen i athrawon nodi digwyddiadau addas i ymgeiswyr gymryd rhan ynddyn nhw a neilltuo rolau fel y gallant gwblhau'r tasgau sy'n weddill.

Rydym yn ymwybodol y gall fod yn anodd i rai canolfannau a rhai ymgeiswyr gynnal a chyfrannu at ddigwyddiadau oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol. Mae hyblygrwydd gan ganolfannau i asesu briff yr asesiad ar gyfer Uned 2 fel y gall ymgeiswyr redeg digwyddiadau llai, digwyddiadau tu allan neu ddigwyddiadau ar-lein.

Mewn achosion lle bydd ymgeiswyr ond yn cael cyfle cyfyngedig i gyfrannu at ddigwyddiadau, gall canolfannau gasglu dystiolaeth ategol i ymdrin â'r meini prawf asesu drwy gynnal trafodaeth strwythuredig. Byddwn yn darparu canllawiau ynghylch gofynion y drafodaeth strwythuredig a'r dystiolaeth y mae angen ei chael.

Bydd tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gynllunio, rhedeg a gwerthuso *o leiaf tri* digwyddiad yn rhan o Uned 3 cyn ymdrin â'r asesu crynodol yn golygu bod llai o waith grŵp ac yn helpu i wneud iawn am y cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol. Gellid defnyddio'r amser a arbedir yn sgil yr Addasiad hwn ar gyfer addysgu a dysgu ychwanegol fydd yn canolbwyntio ar feysydd eraill o'r cynnwys.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Cyfathrebu Busnes Byd-Eang

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, a'r cymhwysedd ymarferol a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Uned 1 – Cyfleoedd Byd-eang – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2 – Teithio Byd-eang – Arholiad Allanol (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 3 – Meithrin Perthynas â Chwsmeriaid Byd-eang – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan (25%)

Ni fydd y gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r tasgau siarad a gwrando (Tasg 3, Rhan B a Thasg 4, Rhan A) yn ofynnol ar gyfer haf 2021.

Uned 4 – Gwerthu a Marchnata Byd-eang – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan (25%)

Bydd y gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r dasg gwrando (Tasg 4, Rhan A) yn cael ei dynnu ar gyfer haf 2021. Yn ogystal, bydd y dasg siarad (Tasg 4) yn cael ei newid i fod yn gyflwyniad ysgrifenedig er mwyn sicrhau yr asesir y Deilliant Dysgu.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd tynnu'r tasgau siarad a gwrando o unedau 3 a 4 yn helpu i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd. Bydd amser a fyddai wedi cael ei dreulio'n cyflawni'r asesiadau hyn ar gael yn awr i gyflawni gweithgareddau addysgu a dysgu. Mae hyn hefyd yn gwneud iawn am rai o'r materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol. Yn y tasgau hyn mae angen cysylltiad agos a gallai hynny fod yn broblem ag unrhyw fesurau ymbellhau corfforol.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Manyleb sydd ar gael i ganolfannau yn Lloegr yn unig yw hon.

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Hefyd, addaswyd yr amodau ar gyfer ymgymryd ag asesiadau yn 2020/21.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Uned 1: Datblygiad Dynol – Arholiad Allanol 40%

Does dim newidiadau i asesiad y cymhwyster hwn.

Uned 2: Darparu Gwasanaethau – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 30%

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) ar gyfer yr asesiad hwn. Dylid rhoi arweiniad i ymgeiswyr o hyd i dreulio tua 20 awr ar yr asesiad.

Uned 3: Materion cyfoes mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 30%

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) ar gyfer Tasg 1. Dylid rhoi arweiniad o hyd i ymgeiswyr i dreulio tua 6 awr ar Dasg 1, a 4 awr ar Dasg 2.

Gwybodaeth ychwanegol

Drwy dynnu'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol o asesiad Uned 2 a Tasg 1 yn Uned 3 bydd trefniadau asesu'n fwy hyblyg, gan ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau'r asesiad y tu allan i oriau ystafell ddosbarth wedi'u hamserlennu. Dylid rhoi arweiniad o hyd i ymgeiswyr i dreulio tua'r un faint o amser ar yr asesiad â'r hyn a nodir ym mriff yr asesiad.

Gellir defnyddio'r amser a arbedir yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu ychwanegol.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Lletygarwch ac Arlwyio

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol yn ôl y Fanyleb. Addaswyd yr asesu ar gyfer Haf 2021 fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, neu'r cymhwysedd ymarferol a nodir yn y fanyleb yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1 – Arholiad a asesir yn allanol 40%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2 – Asesiad dan Reolaeth 60%

Rhaid i ymgeiswyr gynllunio dwy saig o hyd ond dim ond **un** saig y bydd angen ei pharatoi yn unol â'r rheolaethau a amlinellir yn y briff.

Rhaid bod y dystiolaeth yn ddigonol i ddangos ymdriniaeth lawn o MPA3.1 i MPA3.5 i gyfiawnhau'r radd a ddyfarnodd yr athro.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r elfen coginio ymarferol yn rhan fawr o'r cymhwyster hwn ac yn aml iawn, dyma pam mae ymgeiswyr yn dewis y cwrs. Fodd bynnag, byddai cau'r ysgolion a'r colegau wedi golygu nad oedd gan ymgeiswyr a oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster yn haf 2020 fynediad at fannau ac offer arbenigol yn y canolfannau i ddatblygu a mireinio eu sgiliau ymarferol. Mae anawsterau o hyd mewn rhai canolfannau o ran amserlennu sesiynau ymarferol a chydymffurfio ar yr un pryd â mesurau ymbellhau cymdeithasol a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Mae lleihau'r gofyniad o ran nifer y seigiau i'w gynhyrchu gan ymgeiswyr, o ddwy saig i un, yn helpu i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ac yn lleihau'r amser sydd ei angen ar gyfer yr asesiad ymarferol.

Bydd angen i ysgolion a cholegau roi trefniadau ar waith sy'n briodol i'w hamgylchiadau penodol nhw er mwyn sicrhau bod modd parhau â'r addysgu a dysgu, gan gynnwys gwersi ymarferol.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Cynllunio a Chynnal yr Amgylchedd Adeiledig

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, a'r cymhwysedd ymarferol a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy. Addaswyd hefyd pa bryd y bydd asesuadau ar gael yn 2020/21.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Ychwanegu Gwerth at yr Amgylchedd Adeiledig – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio'n Allanol 25%

Er na newidir asesiad yr uned hon, bydd yr asesiad ar gael i'w lawrlwytho gan ganolfannau o'r wefan ddiogel o 1 Ebrill 2021 fel y bydd mwy o hyblygrwydd i amserlennu'r asesiad ar gael i ganolfannau. Mae'r dyddiad cyflwyno yn aros yr un fath.

Uned 2: Cynnal a Chadw'r Amgylchedd Adeiledig – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 50%

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau o leiaf tair tasg atgyweirio yn hytrach na phump (cedwir y lwfans amser presennol).

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) ar gyfer yr holl dasgau. Dylid rhoi arweiniad i ymgeiswyr o hyd i dreulio 12 awr ar yr asesiad hwn.

Uned 3: Amgylcheddau Adeiledig Cynaliadwy – Asesiad dan reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 25%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Golygodd cau'r ysgolion a'r colegau yn y Gwanwyn 2020 na fydd ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster yn haf 2020 wedi cael mynediad at fannau gweithio arbenigol yn y canolfannau i ddatblygu a mireinio eu sgiliau ymarferol ac mae'n annhebygol iawn y gellid bod wedi hwyluso hyn trwy ddysgu o bell. Mae anawsterau o hyd mewn rhai canolfannau o ran amserlennu sesiynau ymarferol a chydymffurfio ar yr un pryd â mesurau ymbellhau cymdeithasol a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Dylai'r Addasiadau i Uned 2 gynorthwyo canolfannau a chydabod ar yr un pryd y bydd ysgolion a cholegau'n rhoi trefniadau ar waith sy'n briodol i'w hamgylchiadau penodol eu hunain er mwyn sicrhau bod modd parhau â'r addysgu a'r dysgu.

Atgoffir canolfannau y gallent amserlennu'r asesiad dan reolaeth dros gymaint o sesiynau ac wythnosau â'r hyn sydd ei angen. Dylai hynny felly helpu o ran eu cefnogi i gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol tebyg i'r hyn a gyhoeddir gan CLEAPPS.

Asesir pob Deiliant Dysgu o hyd yn Haf 2021 ac ni wnaed unrhyw newidiadau i'r asesiad allanol.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Busnes Adwerthu

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Uned 1 Profiad y Cwsmer – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2 – Busnes Adwerthu – Arholiad allanol – 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 3 – Gweithrediadau Adwerthu – Asesiad dan Reolaeth – 50%

Bydd y cynnwys i'w asesu yn Haf 2021 yn llai. Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r meini prawf asesu canlynol:

MPA1.2 – Disgrifio hawliau cyflogeion adwerthu

MPA1.3 – Crynhoi cyfrifoldebau cyflogeion adwerthu

MPA3.1 – Esbonio effeithiau tymoroldeb ar weithrediadau adwerthu

Yn ogystal, roedd y dasg ar gyfer Uned 3 i fod i newid yn 2021 ac mae'r dasg newydd wedi bod ar gael i ganolfannau ers mis Medi 2019. Ond, ar gyfer asesu yn Haf 2021, gall canolfannau ddewis defnyddio naill ai'r dasg newydd neu ddefnyddio'r dasg wreiddiol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Uned 3 yn werth 50% o'r cymhwyster ac ar gyfer y rhan fwyaf o ganolfannau bydd hyn yn cymryd y rhan fwyaf o'r amser addysgu ym Mlwyddyn 11. Nid yw symleiddio'r asesiad i beidio â gofyn am dystiolaeth o MPA penodol yn tynnu agwedd datrys problemau'r uned hon, sy'n bwysig. Er bod angen addysgu'r cynnwys i gyd o hyd, bydd tynnu rhai o'r meini prawf asesu o'r asesiad yn Haf 2021 yn galluogi athrawon i addasu'r ffordd maen nhw'n addysgu ac yn dysgu'r testunau hyn. Gallai hynny wedyn ganiatáu treulio amser ychwanegol ar destunau eraill yn yr uned.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddangosir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Gwella Perfformiad Chwaraeon – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 30%

Does dim newidiadau i gynnwys nac asesiad yr uned hon; ond, bydd terfyn geiriau o tua 1,500 o eiriau yn cael ei gyflwyno ar gyfer Haf 2021.

Uned 2: Ffitrwydd ar gyfer Chwaraeon – Arholiad Allanol 40%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 3: Egwyddorion Hyfforddi – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 30%

Does dim newidiadau i'r tasgau na'r meini prawf asesu. Yn yr asesiad hwn, mae gofyn i ymgeiswyr gynllunio a chyflwyno 'sesiwn chwaraeon benodol'. Bydd angen i ymgeiswyr ystyried sut mae'n bosibl darparu'r asesiad hwn a chydymffurfio ag unrhyw fesurau ymbellhau cymdeithasol sydd ar waith yn eu canolfan ar yr un pryd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae cyflwyno terfyn geiriau ar gyfer Uned 1 yn dangos yn glir beth yw'r gofynion disgwylidig ac yn bodloni'r holl feini prawf a briff yr aseiniad.

Rydym yn ymwybodol bod rhai canolfannau yn cael anawsterau o ran cefnogi ymgeiswyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Gall canolfannau addasu cyd-destun y briff er mwyn gallu ymgymryd â'r gweithgareddau dan y cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol sydd ar waith yn eu canolfan ac unrhyw ganllawiau iechyd y cyhoedd eraill.

Bydd hyblygrwydd gan ganolfannau hefyd i amserlennu'r asesiad ar adeg sy'n addas i'w cynllun cyflwyno.

Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Twristiaeth

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Addaswyd yr asesu ar gyfer Haf 2021 fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, neu'r cymhwysedd ymarferol a nodir yn y cymhwyster yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy. Addaswyd hefyd yr amodau ar gyfer ymgymryd â rhai tasgau asesu.

Os dyfarnwyd canlyniad uned (gradd asesu canolfannau) i ymgeiswyr yn Haf 2020 does dim angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwn yn 2020/21 er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu haf 2021

Uned 1 Profiad y Cwsmer – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2 Busnes Twristiaeth – Arholiad Allanol 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 3 Datblygu Cyrchfannau i Dwristiaid yn y DU – Asesiad dan Reolaeth wedi'i Farcio gan y Ganolfan 50%

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) o'r gweithgaredd ymchwil ar gyfer Tasg 1 yr aseiniad. Dylid rhoi arweiniad o hyd i ymgeiswyr i dreulio tua phedair awr yn ymgymryd â'r ymchwil.

Bydd y cynnwys i'w asesu yn haf 2021 yn cael ei asesu fel na fydd gofyn i ymgeiswyr wneud y canlynol:

- disgrifio nodweddion cyrchfannau (MPA1.1)
- disgrifio sut y caiff nodweddion cyrchfannau eu gwella er mwyn cynyddu apêl (MPA2.2)
- egluro cydberthnasau rhwng sefydliadau sy'n ymwneud â datblygu twristiaeth (MPA3.2)

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Uned 3 yn werth 50% o'r cymhwyster ac ar gyfer y rhan fwyaf o ganolfannau bydd hyn yn cymryd y rhan fwyaf o'r amser addysgu ym Mlwyddyn 11.

Bydd tynnu'r gofyniad i gael goruchwyliaeth uniongyrchol o agweddau ymchwil ar yr asesu dan reolaeth yn golygu bod trefniadau asesu'n fwy hyblyg gan ganiatáu i ymgeiswyr baratoi i gael eu hasesu y tu allan i oriau ystafell ddosbarth wedi'u hamserlennu. Bydd CBAC yn rhyddhau canllawiau pellach ynghylch y mathau o ymchwil sy'n dderbyniol i'w cymryd i mewn i'r amgylchedd asesu. Gellir defnyddio'r amser a arbedir yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer addysgu a dysgu ychwanegol.

Er bod angen addysgu'r cynnwys i gyd i'r ymgeiswyr o hyd, bydd lleihau'r cynnwys i'w asesu yn uned 3 yn helpu i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd gan y bydd yn caniatáu i athrawon addasu eu gweithgareddau addysgu a dysgu ar gyfer y testunau hyn. Neu gallent addasu pa mor fanwl yr addysgir y testunau er mwyn rhyddhau mwy o amser addysgu a dysgu ar gyfer meysydd testun eraill.

Lefel 1 Tystysgrif yn yr Iaith Ladin a Thystysgrif yn yr Iaith Ladin a Gwareiddiad Rhufain

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb. Mae addasiadau wedi'u gwneud fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddangosir yn y cymwysterau yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 9511 Yr Iaith Ladin (67%)

Bydd y asesu yn cael ei symleiddio ar gyfer 2021. Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau elfen gyfieithu Uned 9511. Byddai Uned 9511 yn cynnwys cwestiynau darllen a deall a byddai hyd yr arholiad yn cael ei leihau i 55 munud.

Uned 9512 Testunau Gwareiddiad Rhufain (33%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 9513 Astudio Gwareiddiad Rhufain – Asesiad dan Reolaeth (33%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 9514 Iaith Ladin Ychwanegol (33%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae symleiddio asesiad uned 9511 yn deg i bob ymgeisydd gan fod pob un ohonynt yn sefyll y papur hwn ac asesir MPA1 drwy'r papur cyfan. Byddai newidiadau pellach yn rhy gymhleth oherwydd elfen ddewisol y cymhwyster. Byddai'n anodd sicrhau bod pob llwybr â'r un gofynion a chanlyniadau. Nid yw Lefel 2 ar gael mwyach. Felly, y dilyniant o Lefel 1 yw TGAU lle mae cyfieithu yn llwybr dewisol. Mae ymgeiswyr Tystysgrif yn yr Iaith Ladin yn cael eu profi ar gyfieithu yn Uned 9514.

Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y Fanyleb.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Does dim addasiadau i'r asesiad yn haf 2021.

Gwybodaeth ychwanegol

Lluniwyd ein cymhwyster Lefel 2 Tystysgrif mewn Mathemateg Ychwanegol i ymestyn yr ymgeiswyr mwyaf galluog. Mae'n darparu cwrs astudio priodol a boddhaus ar gyfer ymgeiswyr wnaeth gwblhau TGAU Mathemateg flwyddyn yn gynnar ac/neu sy'n bwriadu dilyn cwrs Mathemateg ar lefel TAG UG neu ddisgyblaeth gysylltiedig ôl-16.

Lluniwyd y cynnwys er mwyn hwyluso'r dilyniant o'r TGAU i'r TAG UG a Safon Uwch ac ni fyddai'n briodol lleihau faint o gynnwys i'w asesu yn haf 2021 heb danseilio pwrpas y cymhwyster.

Un arholiad ysgrifenedig yw dull asesu'r cymhwyster hwn sydd ar gael yn y gyfres haf. Nid yw'n bosibl felly lleihau nifer yr asesiadau na chyflwyno unrhyw hyblygrwydd ychwanegol i'r broses asesu.

Gwahoddwyd canolfannau i gyflwyno sylwadau drwy arolwg ar-lein ar ein cynnig i beidio â gwneud unrhyw addasiadau i'r cymhwyster hwn. Cytunodd 80% o'r ymatebwyr â'r cynnig.

Mynegwyd pryderon nad yw'r cynnig yn gwneud iawn am unrhyw gau canolfannau yn y dyfodol o bosibl e.e. os bydd yr ardal leol yn cael ei chloi. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch unrhyw drefniadau ar gyfer arholiadau os bydd ardaloedd lleol yn cael eu cloi a bydd canllawiau pellach ar gael maes o law.